

9 Rhagfyr 2011

EUB Tywysog Cymru yn cynnal derbynwest yn Clarence House i gefnogi Menter Mynyddoedd Cambrian

Yr wythnos hon (dydd Mercher 7 Rhagfyr 2011) cynhaliodd EUB Tywysog Cymru dderbynwest amser cinio yn Clarence House i gyflwyno cynnyrch arobryn 'Cig Oen Mynyddoedd Cambrian' i gyflenwyr cig a chwmnïau arlwyo blaenllaw, yn ogystal â pherchnogion rhai o fwytai gorau Llundain a cholofnwyr bwyd amlwg. Roedd y digwyddiad yn nodi'r Fenter Marchnata Amaeth ddiweddaraf, a gaiff ei harwain gan y Tywysog, i helpu i hyrwyddo cynnyrch rhanbarthol o ffermydd traddodiadol.

Mae Mynyddoedd Cambria yng nghanolbarth Cymru yn cynnwys rhai o'r tirweddau mwyaf prydferth a dilychwin yn Ewrop gyda dulliau ffermio sy'n dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol.

Roedd cynrychiolwyr y fasnach gig a fynychodd y dderbynwest yn cynnwys uwch-staff o Dunbia, Compass/Facilities Management Catering Ltd, Aubrey Allen, Danish Crown, Aramark, Prime Meats, Initial Catering Services, Brakes Bros Ltd a Chefs Connections Ltd. Roedd yr adwerthwyr a oedd yn bresennol yn cynnwys cyflenwyr cig o ansawdd o Harrods a Partridges o ardal Chelsea, ynghyd â Monoprix o Ffrainc a Gesco – Amadori o'r Eidal.

Mae Cig Oen Mynyddoedd Cambrian yn gynnyrch tymhorol a gaiff ei gynhyrchu gan grŵp o 21 o ffermwyr yng nghanolbarth Cymru. Mae eu brîd brodorol o ŵyn mynydd yn pori'n rhydd ar fryniau lle ceir amrywiaeth o laswelltau a llysiau. Mae hynny'n arwain at oen llai o faint sydd ychydig yn ysgafnach na'r arfer (16kg) sydd â chig o ansawdd a blas eithriadol. Mae'r ffermwyr yn glynu wrth egwyddorion llym brand Mynyddoedd Cambrian er mwyn rheoli'r tir yn unol ag arfer gorau a chynnal cynefinoedd ac ecosystemau gwerthfawr. Mae hunaniaeth y brand hefyd yn cynnwys llun dyfrlliw gan EUB Tywysog Cymru.

Meddai Rheolwr Cwmni Mynyddoedd Cambrian, Deanna Leven, "Mae cefnogaeth ddiflino Ei Uchelder Brenhinol wedi bod yn aruthrol. Mae'r dderbynwest yn Clarence House wedi rhoi cyfle gwych i ni ddangos ein cig oen i gyflenwyr cig a chwmnïau arlwyo o'r radd flaenaf, yn ogystal â pherchnogion bwytai a cholofnwyr bwyd. Rydym wrth ein bodd â'u hymateb a'u brwdfrydedd ynghylch y cynnyrch."

Mae cig oen Mynyddoedd Cambrian eisoes wedi bod yn rhan o lawer o ddigwyddiadau uchel eu proffil megis y Cwpan Ryder a Wimbledon, a'r gobaith yw y bydd y cynnyrch ar fwydlenni digwyddiadau corfforaethol yn ystod y Gemau Olympaidd yn 2012.

Mae cig oen tymhorol Mynyddoedd Cambrian ar gael fel rheol o fis Mehefin i ddiwedd mis Ionawr bob blwyddyn. Caiff y cig oen ei brosesu'n lleol a'i gyflenwi i siopau yn y DU trwy gwmni Dunbia yn Llanybydder. Caiff ei werthu yn ystod y tymor i gwsmeriaid dan label 'Truly Irresistible' y Co-operative, a chafodd sylw hefyd ar sianel siopa QVC yn ddiweddar yn ystod awr o raglen lwyddiannus lle gwerthwyd blychau o gig oen Mynyddoedd Cambrian i'r gwylwyr yn uniongyrchol. Yn y cyfamser, mae grŵp newydd o siopau cig yn rhanbarth Mynyddoedd Cambria yn gobeithio cyflenwi cig oen dan frand Mynyddoedd Cambrian i gwsmeriaid, bwytai a gwestai lleol, yn ogystal â chymryd archebion ar-lein ar gyfer gwahanol doriadau o hanner oen.

Roedd y cigyddion enwog a fu yn y digwyddiad Clarence House yn cynnwys y Cymro Bryn Williams a chynrychiolwyr o fwytai Mosimann a Le Gavroche sy'n eiddo i'r brodyr Roux. Roedd y sefydliadau enwog eraill sydd â seren Michelin yn cynnwys Searcys Commonwealth Club a The Gherkin, Ransome's Dock, Cafe Spice Namaste, L'Anima, Zafferano, The Cinnamon Club, The Garden Bar & Grill, Bocca di Lupo a Maes Criced Lord's.

Ar gyfer y dderbynwest, roedd y cogyddion brenhinol wedi paratoi darnau blasus o lwyn cig oen Mynyddoedd Cambrian wedi'i weini yn null tagine (gan gynnwys sbeisys o Morocco, eirin sych, bricyll, garlleg, tomatos a sinsir) gyda couscous. Gweiniwyd cwrw a fragwyd ym mragdy Heart of Wales hefyd, sef un arall o gynnyrch brand Mynyddoedd Cambrian.

DIWEDD

Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt

- I gael rhagor o wybodaeth am gig oen Mynyddoedd Cambrian, cysylltwch â **Deanna Leven ar 01970 639 410. E-bost Deanna@cambrianmountains.co.uk**. Cymerwch gip hefyd ar www.cambrianmountains.co.uk

- Mae lluniau eglur iawn o'r cynnyrch ar gael yn rhad ac am ddim.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Caiff cig oen Mynyddoedd Cambrian a chynnyrch lleol arall eu hyrwyddo gan gwmni di-elw Mynyddoedd Cambrian Cyf yn rhan o Fenter Mynyddoedd Cambrian. Mae hwn yn brosiect eang sy'n ceisio helpu i hyrwyddo mentergarwch mewn cymunedau gwledig, gwarchod yr amgylchedd ac ychwanegu gwerth at gynnyrch a gwasanaethau yng nghanolbarth Cymru. Ysbrydolwyd y prosiect gan EUB Tywysog Cymru, sydd am helpu i gynnal cymunedau gwledig a ffermydd traddodiadol yr ucheldir, yn ei rôl fel Llywydd Menter Mynyddoedd Cambrian.

- Mae hunaniaeth a logo dwyieithog brand 'Mynyddoedd Cambrian Mountains' yn cynnwys llun dyfrlliw o Gwm Berwyn ym Mynyddoedd Cambria a baentiwyd gan Ei Uchelder Brenhinol.

- Caiff yr ŵyn hyn o Gymru sydd o'r ansawdd gorau posibl ac sy'n rhan o frand Menter Mynyddoedd Cambrian, eu geni a'u magu yn ardal Mynyddoedd Cambria yng nghanolbarth Cymru gan grŵp o 21 o gynhyrchwyr sy'n perthyn i Fenter Mynyddoedd Cambrian. Mae'r cynhyrchwyr ŵyn sy'n cyflenwi Cig Oen Mynyddoedd Cambrian yn glynu wrth egwyddorion llym y brand er mwyn rheoli'r tir yn unol ag arfer gorau, cynnal cynefinoedd ac ecosystemau gwerthfawr, a chymryd camau gweithredol i hybu cymunedau gwledig bywiog.

- Daw bridiau brodorol Mynyddoedd Cambria o breiddiau o ddefaid sydd wedi'u cynefino'n draddodiadol ar ffermydd sy'n rhan o'r cynllun gwarant fferm ac sy'n defnyddio'r hen system 'Hafod a Hendre'. Ar ôl treulio gaeaf yn y cwm, caiff yr ŵyn eu hebrwng i'r bryniau am yr haf hir i bori ar borfa naturiol sy'n gyfoeth o laswelltau a llysiau amrywiol. Mae hynny'n arwain at oen arbennig sy'n pwyso ychydig yn llai na'r arfer (16kg) sydd â ffurf ardderchog ar gyfer cynhyrchu cig blasus, llawn sudd â blas tyner a melys.

- Mae'r cynnyrch dan label Truly Irresistible y Co-operative yn cynnwys cig oen Mynyddoedd Cambrian o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr. Caiff 10c o bob pecyn o Gig Oen Mynyddoedd Cambrian a gaiff ei werthu yn siopau'r Co-operative ei roi i Ymddiriedolaeth Menter Mynyddoedd Cambrian. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i grwpiau ac elusennau lleol yn rhanbarth Mynyddoedd Cambria i gynnal gweithgareddau datblygu cynaliadwy a gweithgareddau cymunedol. (I gael rhagor o wybodaeth am gynnyrch Cig Oen Mynyddoedd Cambrian dan label Truly Irresistible y Co-operative, cysylltwch â Deborah Clark ar 0161 266 3594 neu Deborah.clark2@co-operative.coop)

- Mae asesiad cyfannol o ôl troed carbon y ffermydd, a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Bangor, yn cael ei ystyried yn un o'r astudiaethau mwyaf cynhwysfawr o ôl troed carbon hyd yma, gan ei fod yn ystyried y modd y caiff carbon ei ddal a'i storio'n naturiol mewn pridd a llystyfiant megis gwrychoedd a choetir. Mae'r ffaith bod y ffermydd yn cadw at y safonau llym hyn o ran lles anifeiliaid a safonau amgylcheddol wrth gynhyrchu'r cig oen yn cael ei adlewyrchu yn y pris a godir am y cynnyrch.